***Statws*** *This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2005 Rhif 1833 (Cy.149) (C.79)

# ADDYSG, CYMRU

## Gorchymyn Deddf Addysg Uwch 2004 (Cychwyn Rhif 2 a Darpariaeth Drosiannol) (Cymru) 2005

*Wedi'i wneud - - 6 Gorffennaf 2005*

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddo gan adrannau 47(5), 52(3), (4) a (6) o Ddeddf Addysg Uwch 2004(**1**) a chyda chytundeb yr Ysgrifennydd Gwladol(**2**) drwy hyn yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn:

### Enwi, cymhwyso a dehongli

**1.** Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Deddf Addysg Uwch 2004 (Cychwyn Rhif 2 a Darpariaeth Drosiannol) (Cymru) 2005.

**2.** Mae'r darpariaethau sy'n cael eu dwyn i rym gan y Gorchymyn hwn yn cael eu dwyn i rym o ran Cymru.

**3.** Yn y Gorchymyn hwn, oni nodir fel arall, mae cyfeiriadau at adrannau ac Atodlenni yn gyfeiriadau at adrannau o Ddeddf Addysg Uwch 2004 a'r Atodlenni iddi.

### Darpariaethau sy'n dod i rym

**4.** Daw'r darpariaethau canlynol i rym ar 7 Gorffennaf 2005 —

(a) adran 10(2);

(b) adran 44 (1), (2), (5) a (6);

(c) adran 49 i'r graddau mae'n ymwneud â darpariaethau Atodlen 6 isod;

(ch) adran 50 i'r graddau mae'n ymwneud â darpariaethau Atodlen 7 isod;

(d) yn Atodlen 6, paragraff 7, dileu adran 26(5) o Ddeddf Addysgu ac Addysg Uwch 1998; ac

(e) yn Atodlen 7, diddymu adran 26(5) o Ddeddf Addysgu ac Addysg Uwch 1998.

**5.** Daw'r darpariaethau canlynol i rym ar 1 Medi 2006—

(a) adran 44(3); a

(b) adran 44(4).

(**1**) 2004 p.8.
(**2**) Fel sy'n ofynnol gan Ddeddf Addysg Uwch 2004, adran 52(4).

**Darpariaeth drosiannol ac arbed**

**6.** Er gwaethaf dwyn i rym adran 44(1) a (2) yn rhinwedd erthygl 4(b) uchod, hyd at 1 Medi 2006 mae swyddogathau'r Ysgrifennydd Gwladol o dan Reoliadau Addysg (Cymorth i Fyfyrwyr) 2005(**3**) yn arferadwy mewn perthynas â Chymru gan yr Ysgrifennydd Gwladol yn unig.

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(**4**)

*D. Elis-Thomas*
Llywydd y Cynulliad Cenedlaethol

6 Gorffennaf 2005

(**3**) O.S. 2005/52.
(**4**) 1998 p.38.

## EXPLANATORY NOTE

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Mae'r Gorchymyn hwn yn dwyn i rym yng Nghymru ar 30 Mehefin 2005 y darpariaethau a ganlyn yn Neddf Addysg Uwch 2004:

Adran 10(2) sy'n rhoi i'r Cynulliad Cenedlaethol y pŵer i ariannu'n uniongyrchol ymchwil yn y celfyddydau a'r dyniaethau ac mewn gweithgareddau cysylltiedig.

Adran 44(1) sy'n trosglwyddo i'r Cynulliad Cenedlaethol bŵer yr Ysgrifennydd Gwladol i wneud rheoliadau sy'n pennu'r trefniadau ar gyfer rhoi cymorth ariannol i fyfyrwyr.

Adran 44(2) sy'n rhoi i'r Cynulliad Cenedlaethol (yn gydredol â'r Ysgrifennydd Gwladol) y pŵer, mewn perthynas â Chymru, i wneud darpariaethau penodol yn y rheoliadau sy'n pennu'r trefniadau ar gyfer rhoi cymorth ariannol i fyfyrwyr.

Adran 44(5) sy'n rhoi i'r Cynulliad Cenedlaethol (yn gydredol â'r Ysgrifennydd Gwladol), a hynny cyn trosglwyddo swyddogaethau cymorth i fyfyrwyr, y pŵer i wneud taliadau i gorff neu berson, megis y Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr, y bydd un o swyddogaethau'r Cynulliad Cenedlaethol yn arferadwy ganddo ar ôl trosglwyddo pwerau cymorth i fyfyrwyr i'r Cynulliad Cenedlaethol.

Adran 44(6) sy'n sicrhau bod darpariaethau penodol Deddf Llywodraeth Cymru 1998 yn gymwys i'r swyddogaethau a drosglwyddir, er enghraifft, nad yw gweithdrefnau seneddol yn gymwys i'r gwaith o wneud deddfwriaeth y Cynulliad Cenedlaethol.

Adran 49 ac Atodlen 6 sy'n cynnwys diwygiadau canlyniadol.

Adran 50 ac Atodlen 7 sy'n cynnwys diddymiadau.

Mae'r Gorchymyn hwn yn dwyn i rym yng Nghymru ar 1 Medi 2006 y darpariaethau a ganlyn yn Neddf Addysg Uwch 2004:

Adran 44(3) sy'n sicrhau bod rheoliadau, a wnaed gan yr Ysgrifennydd Gwladol ac sy'n darparu ar gyfer ad-dalu drwy gyfrwng trethi fenthyciadau a roddwyd i fyfyrwyr (rheoliadau a wnaed o dan adran 22(5) o Ddeddf Addysgu ac Addysg Uwch 1998), yn gymwys i Gymru dim ond os yw'r Cynulliad Cenedlaethol yn penderfynu gweithredu system ad-dalu drwy gyfrwng trethi o gasglu'r arian ac yn hysbysu'r Ysgrifennydd Gwladol o'r penderfyniad hwnnw.

Adran 44 (4) sy'n trosglwyddo i'r Cynulliad Cenedlaethol y pŵer i drosglwyddo neu ddirprwyo unrhyw un o'r swyddogaethau sydd ganddo yn rhinwedd y rheoliadau sy'n pennu'r trefniadau ar gyfer rhoi cymorth ariannol i fyfyrwyr.

## NOTE AS TO EARLIER COMMENCEMENT ORDERS

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

| *Y Ddarpariaeth* | *Y Dyddiad Cychwyn* | *Rhif O.S.* |
|---|---|---|
| Adran 1 | 16 Rhagfyr 2004 | 2004/3255 |
| Adran 2 | 1 Ebrill 2005 | 2005/767 |
| Adrannau 3 i 6 | 16 Rhagfyr 2004 | 2004/3255 |
| Adrannau 8 a 9 | 16 Rhagfyr 2004 | 2004/3255 |
| Adrannau 11 i 18 | 1 Rhagfyr 2004 | 2004/3144 |

| *Y Ddarpariaeth* | *Y Dyddiad Cychwyn* | *Rhif O.S.* |
|---|---|---|
| Adran 19 | 1 Tachwedd 2004 | 2004/2781 |
| Adran 20 | 1 Ionawr 2005 | 2004/3144 |
| Adran 21 | 1 Rhagfyr 2004 | 2004/3144 |
| Adran 46 | 1 Ionawr 2005 | 2004/3144 |
| Adran 49 | 16 Rhagfyr 2004 1 Ebrill 2005 | 2004/32552005/767 |
| Adran 50 | 1 Ionawr 2005 1 Ebrill 2005 | 2004/31442005/767 |
| Atodlen 1 | 1 Rhagfyr 2004 | 2004/3144 |
| Atodlen 2 | 1 Rhagfyr 2004 | 2004/3144 |
| Atodlen 3 | 1 Rhagfyr 2004 | 2004/3144 |
| Atodlen 4 | 1 Rhagfyr 2004 | 2004/3144 |
| Atodlen 6 | 16 Rhagfyr 2004 1 Ebrill 2005 | 2004/32552005/767 |
| Atodlen 7 | 1 Ionawr 2005 1 Ebrill 2005 | 2004/31442005/767 |

Cafodd amryw o ddarpariaethau Deddf Addysg Uwch 2004 eu dwyn i rym o ran Lloegr a Gogledd Iwerddon gan yr offerynnau statudol a ganlyn: O.S. 2004/2781 ac O.S. 2004/3255. Cafodd adran 10(3) o Ddeddf Addysg Uwch 2004 ei dwyn i rym o ran yr Alban gan O.S. 2005/33.